

# Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

## Papur Cefndir




Gorffennaf 2019

# PC 30: Adroddiad Galw a Chyflenwad Safleoedd Lotments

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Mae’r ddogfen hon ar gael i’w gweld a’i lawrlwytho ar wefan y Cyngor ar: www.conwy.gov.uk/cdlln. Mae copïau hefyd ar gael i’w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn, LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445 / 575124 / 574232.

**Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â’r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

Cewch drwydded anghyfyngedig, ddirymiadwy, heb freindal i weld y Data Trwyddedig ar gyfer dibenion anfasnachol o fewn y cyfnod a nodir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
Nid oes gennych hawl copïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu na darparu’r Data Trwyddedig i drydydd parti mewn unrhyw gyfrwng; a
Bydd hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon yn cael ei gadw ar gyfer Arolwg Ordnans.

## Cynnwys

1 Cyflwyniad ........ 4
2 Canllawiau a Pholisi Cynllunio Cenedlaethol ........ 4
3 Safonau Rhandiroedd ........ 5
4 Darpariaeth Rhandiroedd Presennol ........ 7
5 Ardaloedd o Alw ........ 8
6 Dyraniadau CDLl a Fabwysiadwyd ........ 10
7 Cyfraniadau Datblygwyr ........ 11
8 Casgliad ........ 11
Atodiad 1: Mapiau o randiroedd a gerddi cymunedol unigol ........ 12

# 1 Cyflwyniad

Mae hwn yn un o gyfres o Bapurau Cefndir sydd yn gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy (CDLIN). Pan fydd y Cyngor yn cyhoeddi ei Gynllun Strategaeth ac i'w Archwilio a Ffefrir, rhaid iddo egluro sut mae'r polisi wedi'i lunio ar sail y dystiolaeth sydd ar gael i'r Cyngor ar y pryd.

1.1 Pwrpas y papur cefndir hwn yw:

- gosod safon y Cyngor ar gyfer darparu rhandiroedd,
- amlinellu lefel bresennol darpariaeth rhandiroedd,
- nodi'r ardaloedd lle mae'r galw mwyaf am randiroedd,
- y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd safleoedd a ddyrannwyd yng Nghynllun Datblygu Lleol Conwy 2007-2022,
- asesu'r gofynion ar gyfer dyraniadau safle newydd; a,
- nodi'r mecanweithiau ar gyfer sicrhau cyfraniadau datblygwyr yn y dyfodol.

# 2 Canllawiau a Pholisi Cynllunio Cenedlaethol

2.1 Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ddarparu rhandiroedd dan Ddeddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908. Mae rhwymedigaeth ar yr awdurdodau lleol i ddarparu lleiniau digonol ar gyfer preswylwyr lle credir bod galw am randiroedd. Mae Deddf Rhandiroedd 1925 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud cais am ganiatâd gan Lywodraeth Cymru os ydynt yn dewis cael gwared ar randir statudol.

2.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru wedi'i ddiwygio er mwyn sicrhau ei fod yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae Polisi Cynllunio Cymru wedi'i rannu i bedair thema wahanol, sydd yn dangos gofynion y Ddeddf mewn cyd-destun ar gyfer y polisi cynllunio ac yn dangos y rhyng-gysylltiadau rhwng y polisïau cynllunio. Mae rhandiroedd wedi'u cynnwys fel cyfleuster cymunedol o fewn y thema Mannau Egnïol a Chymdeithasol.

2.3 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi bod cyfleusterau cymunedol, yn cynnwys rhandiroedd, yn cyfrannu at ymdeimlad o le, sydd yn bwysig ar gyfer iechyd, lles ac amwynder. Maent yn elfennau allweddol o gymunedau hyfyw a chynaliadwy.

2.4 Mae paragraff 4.4.2 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio ddatblygu dull strategol a hirdymor ar gyfer darparu cyfleusterau cymunedol wrth baratoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Dylid ystyried anghenion y gymuned a dylid sicrhau fod cyfleusterau cymunedol barhau i ddiwallu anghenion preswylwyr lleol.

2.5 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi fod gan randiroedd a lleoliad twf cymunedol fuddion cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd ac iechyd. Maent yn gallu cyfrannu at hunaniaeth lle, ymdeimlad o gymuned ac adfywio mannau agored. Dylid cadw a diogelu rhandiroedd presennol, yn enwedig os ydynt yn rhan bwysig o'r seilwaith gwyrdd neu os oes ganddynt werth cymunedol. Mae gan randiroedd statudol amddiffyniad cyfreithiol. Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu tir ar gyfer rhandiroedd i fodloni'r galw a nodir yn lleol. Dylai cynlluniau datblygu gynnwys dyraniadau ar gyfer unrhyw randir ychwanegol neu leoliad twf cymunedol sydd ei angen.

2.6 Mae Nodyn Cyngor Technegol 16 (2009) yn rhoi cyngor ar fannau agored. Mae rhandiroedd wedi'u cynnwys fel teipoleg yn y diffiniadau. Mae gerddi cymunedol a ffermydd trefol wedi'u cynnwys yn yr un deipoleg. Maent yn cael eu hystyried yn fannau gwyrdd pwysig sy'n gallu cyfrannu tuag at gynaliadwyedd, cynnig cyfleoedd hamdden ac ymarfer corff, darparu bwyd iach, gwella bioamrywiaeth ac annog rhyngweithio rhwng aelodau'r gymuned. Dylai pob safle gynnwys elfen o fywyd gwyllt.

2.7 Dylid gwarchod, hybu a rheoli rhandiroedd statudol (rhandiroedd ag arwynebau llai na 1,000 metr sgwâr) yn briodol a dylai'r rhandiroedd hyn fodloni'r galw lleol am randiroedd. Lle cynigir eu datblygu ar gyfer defnydd arall, dylid lliniaru'r golled gyda safle newydd arall. Wrth ystyried ceisiadau i gael gwared arnynt, ni all Gweinidogion Cymru ystyried manteision y datblygiad a gynigiwyd. Mae p'un a yw'r galw am randiroedd yn yr ardal honno am gael ei fodloni neu beidio yn bryder.

2.8 Dylai polisïau'r CDLl fynd i'r afael â'r angen i ddarparu a diogelu safleoedd rhandiroedd / compost / bywyd gwyllt lle bo diffyg wedi'i nodi ac i wella hygyrchedd y safleoedd hyn ar gyfer pob defnyddiwr.

## 3 Safonau Rhandiroedd

3.1 Mae Adroddiad Thorpe 1969, sy'n cynnig 15 llain fesul 1,000 o aelwydydd yn cael ei ddefnyddio'n aml. Oherwydd colled rhandiroedd, mae'r Gymdeithas Genedlaethol Rhandiroedd yn argymell isafswm o 20 llain fesul 1,000 o aelwydydd. Nid oes maint penodol wedi'i osod ar gyfer rhandir. Mae llain arferol oddeutu $250m^2$. Byddai hyn yn gosod safon o 0.5 hectar fesul 1,000 o'r boblogaeth. Mae 'Tyfu yn y Gymuned' Cymdeithas Genedlaethol Rhandiroedd a Garddwyr Hamdden yn argymell 0.2 hectar fesul 1,000 o'r boblogaeth.

3.2 Nid yw safonau'r ddarpariaeth wedi'u nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru nac ychwaith yn NCT 16, dylid diffinio'r rhain yn lleol er mwyn diwallu'r angen a nodwyd. Mae'r NCT yn cyfeirio at safonau a awgrymir gan Feysydd Chwarae Cymru ar gyfer mathau eraill o fannau agored. Diweddarodd Meysydd Chwarae Cymru ei safonau meincnod yn 2015, a daeth yn amlwg mai'r canolrif o ran darpariaeth ar gyfer rhandiroedd, gerddi cymunedol a ffermydd trefol yng Nghymru oedd 0.3 hectarau fesul 1,000 o'r boblogaeth.

3.3 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu lleiniau o faint safonol (9x4m2), sef 36m$^2$. Ystyrir bod hyn yn adlewyrchu anghenion preswylwyr Conwy yn well.

3.4 Gosododd y CDLl a Fabwysiadwyd safon ar gyfer rhandiroedd a oedd yn adlewyrchu'r angen lleol ar y pryd (2012). Mae polisi'r Cyngor yn caniatáu un llain rhandir fesul aelwyd. Er mwyn osgoi'r posibilrwydd o gyfrif ddwywaith, gosodwyd y safon ar y sail hon, ac nid fesul poblogaeth. Cyfrifwyd hyn fel 1.35m$^2$ fesul annedd, sy'n cyfateb i oddeutu 0.3 hectar fesul y boblogaeth. Cynigir defnyddio yr un fethodoleg, ond gyda'r ffigyrau diweddaraf, ar gyfer y CDLlN.

3.5 Ar hyn o bryd mae 332 o leiniau rhandiroedd a 292 o bobl ar y rhestr aros. Mae'r galw gwirioneddol am randir yn debygol o fod yn uwch, mae'n bosib nad yw rhai wedi rhoi eu henwau ar y rhestr aros gan nad oes safleoedd rhandiroedd yn agos atynt.

**Tabl 1: Galw am randiroedd ym Mwrdeistref Sirol Conwy**

Ffynhonnell: Amcangyfrifon Stoc Annedd, Llywodraeth Cymru, Cyd-Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai, Polisi Cynllunio Strategol a'r Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y galw am randiroedd (lleiniau)** | **624** |
| Nifer y lleiniau rhandiroedd | 332 |
| Nifer ar restr aros | 292 |
| **Amcangyfrif o nifer yr anheddau presennol** | **57,523** |
| Nifer yr anheddau presennol (2016/17) | 57,203 |
| Nifer yr anheddau newydd a adeiladwyd (2017/18) | 320 |
| **Amcangyfrif o'r galw presennol am randiroedd (lleiniau fesul annedd)** | **0.011** |

3.6 Mae'r tabl uchod yn amcangyfrif nifer cyfartalog y lleiniau rhandir fesul annedd ar gyfer y Fwrdeistref Sirol. Gellir defnyddio'r ffigwr hwn i amcangyfrif y galw tebygol am leiniau rhandiroedd a ddaw o ganlyniad i'r anheddau newydd arfaethedig a nodir yn y CDLlN. Mae'r tabl isod yn dangos y nifer debygol o leiniau rhandiroedd newydd fydd eu hangen i gwrdd â'r angen presennol a'r cynnydd a ragwelir o'r twf a gynigir yn Strategaeth a Ffefrir y CDLlN.

**Tabl 2: Galw am randiroedd ym Mwrdeistref Sirol Conwy**

Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol a'r Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

| Nifer yr anheddau newydd a gynhigir gan ddewis twf CDLl | | Amcangyfrif o nifer y lleiniau rhandiroedd fydd eu hangen i gwrdd â'r angen cynyddol | Nifer y lleiniau newydd sydd eu hangen (yn cynnwys y rhestr aros ar hyn o bryd) | Cyfanswm y galw am randiroedd |
|---|---|---|---|---|
| Dewis 4 | 4,300 | 47 | 339 | 671 |

## 4 Darpariaeth Rhandiroedd Presennol

Ar hyn o bryd mae 17 o safleoedd rhandiroedd ac un berllan gymunedol yn y Fwrdeistref Sirol. Nid yw pob un yn eiddo i'r Cyngor. Mae mapiau manwl a rhifau lleiniau ar gyfer pob safle yn Atodiad 1.

**Tabl 3: Darpariaeth rhandiroedd ym Mwrdeistref Sirol Conwy.**

Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol a'r Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

| Safle'r Rhandir | Anheddiad | Nifer y Lleiniau | Nifer y Lleiniau Gwag | Maint y Safle ($m^2$) |
|---|---|---|---|---|
| Towyn Way West | Towyn /Bae Cinmel | 19 | 2* | 1,765 |
| Ffordd y Graig | Hen Golwyn | 19 | 2* | 1,370 |
| Bodlondeb | Conwy | 29 | 1 | 2,520 |
| Bodelwyddan Avenue | Hen Golwyn | Anhysbys | | 955 |
| St George's Drive | Cyffordd Llandudno | 23 | 1 | 2,685 |
| Bron y Nant, Dinerth Road | Llandrillo-yn-Rhos | 43 | 1* | 7,735 |
| Bryn Euryn, Tan y Bryn Road | Llandrillo-yn-Rhos | 83 | 6* | 6,245 |
| Conway Road | Llandudno | Anhysbys | | 200 |
| Penmorfa | Llanfairfechan | 68 | 5* | 9,880 |
| St David's Road | Penmaenmawr | 7 | 2 | 1,325 |
| Rock Villa Road | Penmaenmawr | 7 | 0 | 450 |
| Gwel y Môr | Dwygyfylchi | 4 | | 305 |
| Ffordd Glan y Môr | Bae Penrhyn | 2 | 0 | 545 |
| Cwm Howard | Llandudno | Anhysbys | | 15,580 |
| Wellington Road | Hen Golwyn | 2 | 0 | 255 |
| Clwb y Lleng Brydeinig | Bae Colwyn | Anhysbys | | 1,090 |
| Tŷ Newydd, yr Hen Briffordd | Bae Colwyn | 24 | | 5,355 |
| Perllan Gymunedol | Conwy | Amherthnasol | | 6,955 |

*mae cynnig wedi'i wneud ar y lleiniau hyn

## 5 Ardaloedd o Alw

Mae’r tabl isod yn dangos lle mae preswylwyr sydd ar y rhestr aros am randir yn byw ar hyn o bryd. Mae’n dangos galw yn y rhan fwyaf o aneddiadau ar draws yr arfordir, a galw llai mewn ardaloedd gwledig. Mae’r gwir alw yma yn debygol o fod yn uwch, lle nad yw preswylwyr wedi rhoi eu henwau ar restr aros gan nad oes darpariaeth ar hyn o bryd.

### Tabl: Y rhestr aros bresennol


Ffynhonnell: Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

| Anheddiad | Rhif ar y rhestr | Anheddiad | Rhif ar y rhestr |
|---|---|---|---|
| **Creuddyn** | | **Gorllewin** | |
| Conwy | 32 | Llanfairfechan | 11 |
| Deganwy | 5 | Penmaenmawr | 27 |
| Cyffordd Llandudno | 11 | Dwygyfylchi | - |
| Llandudno | 27 | **Dwyrain** | |
| Bae Penrhyn | 6 | Abergele | 26 |
| **Central** | | Tywyn | 2 |
| Llandrillo-yn-Rhos | 30 | **Gwledig** | |
| Bae Colwyn | 25 | Llanrwst | 7 |
| Hen Golwyn | 15 | Trefriw | 20 |
| Mochdre | - | Arall - 100 | 17 |

Polisi’r Cyngor yw dyrannu rhandir o fewn radiws o dair milltir o gyfeiriad cartref yr ymgeisydd. Mae lleoliad y safleoedd rhandiroedd presennol yn golygu nad yw hyn bob amser yn bosibl. Mae’r map isod yn dangos bod bylchau o ran darpariaeth rhandiroedd. Nid oes safleoedd rhandiroedd mewn ardaloedd gwledig ac mae bwlch bychan yn Abergele. Bydd y safleoedd rhandiroedd newydd wedi’i lleoli i fodloni’r ardaloedd o alw.

## Map 1: :Lleoliad safleoedd rhandiroedd ac ymgeiswyr ar y rhestr aros

Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol a’r Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy



## 6 Dyraniadau CDLI a Fabwysiadwyd

6.1 Mae polisi CFS/10 y CDLI wedi dyrannu pump safle ar gyfer rhandiroedd. Mae'r tabl isod yn dangos y cynnydd ar gyfer darparu'r rhain.

**Tabl 5: Dyraniadau safleoedd rhandiroedd y CDLI**

Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

| Dyraniad y CDLI | Defnydd Dynodedig | Cynnydd ar y Safle |
|---|---|---|
| Oddi ar Ffordd Rhuddlan, Abergele | Preswyl, cyflogaeth, man agored a rhandiroedd | Rhan wedi'i datblygu at ddibenion preswyl. Mae brîff datblygu'r safle wedi'i fabwysiadu fel CCA. Mae cyfraniad ariannol ar gyfer rhandiroedd wedi'i geisio oherwydd natur gymhleth y safle a'i ddwyn ymlaen i'w ddatblygu. |
| Esgyryn<br>Cyffordd Llandudno | Preswyl, cyflogaeth a rhandiroedd | Safle wedi'i ddatblygu. Rhandiroedd heb eu dwyn yn eu blaen oherwydd hyfywedd. Cyfraniad ariannol wedi'i geisio yn lle. |
| I'r gogledd o Lanrwst | Preswyl a rhandiroedd | Nid yw'r safle wedi dod yn ei flaen i'w ddatblygu. |
| I'r gogledd o Groesffordd, Dwygyfylchi | Preswyl a rhandiroedd | Safle wedi'i ddatblygu. Darparwyd ardal fechan ar gyfer rhandiroedd gan y datblygwr. Bydd y grŵp cymunedol lleol yn defnyddio'r ardal fechan. |
| I'r gorllewin o Gwrych Lodge, Abergele | Rhandiroedd | Nid yw'r safle wedi dod yn ei flaen. Mae cyfamod cyfyngol ar y tir ac mae angen cael gwared ohono er mwyn defnyddio'r tir fel rhandir. |

6.2 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu brîff datblygu safle fel Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer safle Tŷ Mawr, sydd wedi'i leoli ar ffin anheddiad Hen Golwyn ond o fewn Ward Llysfaen. Yn wreiddiol dyrannwyd y safle er defnydd preswyl a man agored. Yn dilyn ymgynghoriad ag yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau CBSC, ychwanegwyd rhandiroedd at ddefnyddiau'r safle.

## 7 Dyraniadau strategol y CDLI Newydd

7.1 Mae rhandiroedd wedi cael eu dynodi yn y safleoedd strategol canlynol ar gyfer Strategaeth Ffafriedig y CDLI Newydd.

**Tabl 5: Dyraniadau safle rhandiroedd y CDLI**

Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

| Dyraniad y CDLl Newydd | Nifer o blotiau | Arwynebedd* |
|---|---:|---:|
| Llanfairfechan | 40 | 1,440m2 |
| Deganwy / Llanrhos | 40 | 1,440m2 |
| Hen Golwyn | 40 | 1,440m2 |
| Llanrwst | 30 | 1,080m2 |

*Ar gyfer plotiau'r rhandiroedd yn unig. Bydd angen rhagor o dir ar gyfer mynediad.

7.2 Gellir dyrannu tir ychwanegol ar y cam Adneuo.

## 8 Cyfraniadau Datblygwyr

8.1 Mae'r CDLl presennol a'r Canllaw Cynllunio Atodol cysylltiedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl geisiadau am unedau preswyl newydd gyfrannu'n ariannol tuag at ddarparu rhandiroedd. Gwneir hyn er mwyn darparu rhandiroedd i fodloni'r galw a grëir o ganlyniad i'r datblygiad newydd.

8.2 Mae deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Ardreth Seilwaith Cymunedol ar hyn o bryd heb ei benderfynu gan ei fod yn aros am Adolygiad Llywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor felly yn symud ymlaen ag Asesiad Hyfywedd sy'n ystyried goblygiadau cynllunio drwy'r dull Canllaw Cynllunio Atodol cyfredol a'r Ardreth Seilwaith Cymunedol. Gallai hyn effeithio ar sut y bydd cyfraniad cynllunio at randiroedd yn cael ei geisio yn y CDLIN.

## 9 Casgliad


9.1 Mae rhannau o'r Fwrdeistref Sirol sydd ddim yn darparu rhandiroedd. Mae preswylwyr ar y rhestr aros ar gyfer yr ardaloedd hyn. Mae hefyd galw ar draws bob rhan o'r arfordir, lle nad yw lefel y ddarpariaeth bresennol, mewn perthynas â rhandiroedd, yn diwallu'r angen. Bydd safleoedd yn cael eu dyrannu, lle bo'n bosibl, i ddiwallu'r angen hwn.

9.2 Bydd datblygiadau tai yn y dyfodol a'r cynnydd yn y galw am randiroedd o ganlyniad, hefyd yn cael ei ystyried i sicrhau bod y galw newydd yn cael ei fodloni.

## Atodiad 1: Mapiau o randiroedd a gerddi cymunedol unigol

### Pen Morfa, Llanfairfechan


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Arwynebedd:** | 9,880m$^2$ |
| **Ward:** | Bryn |
| **Cyngor Cymuned:** | Llanfairfechan |
| **Gweithredol:** | Ydi |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| | |
| **Cyfanswm nifer y lleiniau:** | 68 |
| **Nifer y lleiniau gwag:** | 5 (cynnig wedi'i wneud) |
| **Nifer y lleiniau hygyrch:** | 0 (hygyrch i gadeiriau olwyn mewn mannau) |
| | |
| **Nifer ar restr aros:** | 13 |

## St David's Road, Penmaenmawr


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Arwynebedd:** | 1,325m$^2$ |
| **Ward:** | Pant-Yr-Afon/Penmaenan |
| **Cyngor Cymuned:** | Penmaenmawr |
| **Gweithredol:** | Ydi |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| **Cyfanswm nifer y lleiniau:** | 7 |
| **Nifer y lleiniau gwag:** | 2 |
| **Nifer y lleiniau hygyrch:** | 0 |
| **Nifer ar restr aros:** | 18 |

## Rock Villa Road, Penmaenmawr


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Arwynebedd:** | 450m$^2$ |
| **Ward:** | Pant-Yr-Afon/Penmaenan |
| **Cyngor Cymuned:** | Penmaenmawr |
| **Gweithredol:** | Ydi |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| | |
| **Cyfanswm nifer y lleiniau:** | 7 |
| **Nifer y lleiniau gwag:** | 0 |
| **Nifer y lleiniau hygyrch:** | 0 (hygyrch i gadeiriau olwyn mewn mannau) |
| | |
| **Nifer ar restr aros:** | 11 |

## Gwel y Môr, Dwygyfylchi


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Arwynebedd:** | 305m$^2$ |
| **Ward:** | Capelulo |
| **Cyngor Cymuned:** | Penmaenmawr |
| **Gweithredol:** | Ydi |
| **Perchnogaeth:** | Preifat (rheolir gan CBSC) |
| **Cyfanswm nifer y lleiniau:**<br>**Nifer y lleiniau gwag:**<br>**Nifer y lleiniau hygyrch:** | Amherthnasol – i'w defnyddio gan grŵp cymunedol fel un safle |
| **Nifer ar restr aros:** | Amherthnasol |

## Bodlondeb, Conwy


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Arwynebedd:<** | 2,520m$^2$ |
| **Ward:** | Conwy |
| **Cyngor Cymuned:** | Conwy |
| **Gweithredol:** | Ydi |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| | |
| **Cyfanswm nifer y lleiniau:** | 29 |
| **Nifer y lleiniau gwag:** | 1 |
| **Nifer y lleiniau hygyrch:** | 0 |
| | |
| **Nifer ar restr aros:** | 42 |

## Perllan Gymunedol, Conwy


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Arwynebedd:** | 6,955m$^2$ |
| **Ward:** | Conwy |
| **Cyngor Cymuned:** | Conwy |
| **Gweithredol:** | Ydi |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| | |
| **Cyfanswm nifer y lleiniau:** | Amherthnasol |
| **Nifer y lleiniau gwag:** | Amherthnasol |
| **Nifer y lleiniau hygyrch:** | Amherthnasol |
| | |
| **Nifer ar restr aros:** | Amherthnasol |

## St George’s Drive, Cyffordd Llandudno


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Arwynebedd:** | 2,685m$^2$ |
| **Ward:** | Marl |
| **Cyngor Cymuned:<** | Conwy |
| **Gweithredol:** | Ydi |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| | |
| **Cyfanswm nifer y lleiniau:** | 23 |
| **Nifer y lleiniau gwag:** | 1 |
| **Nifer y lleiniau hygyrch:** | 0 |
| | |
| **Nifer ar restr aros:** | 18 |

## Conway Road, Llandudno


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Arwynebedd:** | 200m$^2$ |
| **Ward:** | Tudno |
| **Cyngor Cymuned:** | Llandudno |
| **Gweithredol:** | Ydi |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| | |
| **Cyfanswm nifer y lleiniau:** | Anhysbys |
| **Nifer y lleiniau gwag:** | Anhysbys |
| **Nifer y lleiniau hygyrch:** | Anhysbys |
| | |
| **Nifer ar restr aros:** | Anhysbys |

### Cwm Howard, Llandudno

Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Arwynebedd:** | 15,580m$^2$ |
| **Ward:** | Tudno |
| **Cyngor Cymuned:** | Llandudno |
| **Gweithredol:** | Ydi |
| **Perchnogaeth:** | CBSC (rheolir yn breifat) |
| **Cyfanswm nifer y lleiniau:** | Anhysbys |
| **Nifer y lleiniau gwag:** | Anhysbys |
| **Nifer y lleiniau hygyrch:** | Anhysbys |
| **Nifer ar restr aros:** | 1 |

## Ffordd Glan y Môr, Bae Penrhyn


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Arwynebedd:** | 545m$^2$ |
| **Ward:** | Penrhyn |
| **Cyngor Cymuned:** | Llandudno |
| **Gweithredol:** | Ydi |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| | |
| **Cyfanswm nifer y lleiniau:** | 2 |
| **Nifer y lleiniau gwag:** | 0 |
| **Nifer y lleiniau hygyrch:** | 0 |
| | |
| **Nifer ar restr aros:** | 1 |

## Bron y Nant, Dinerth Road, Llandrillo yn Rhos


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Arwynebedd:** | 7,735m$^2$ |
| **Ward:** | Llandrillo-yn-Rhos |
| **Cyngor Cymuned:** | Llandrillo-yn-Rhos |
| **Gweithredol:** | Ydi |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| **Cyfanswm nifer y lleiniau:** | 43 |
| **Nifer y lleiniau gwag:** | 1 (cynnig wedi'i wneud) |
| **Nifer y lleiniau hygyrch:** | 0 |
| **Nifer ar restr aros:<** | 18 |

## Bryn Euryn, Tan y Bryn Road, Llandrillo-yn-Rhos

Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Arwynebedd:** | 6,245m$^2$ |
| **Ward:** | Llandrillo-yn-Rhos |
| **Cyngor Cymuned:** | Llandrillo-yn-Rhos |
| **Gweithredol:** | Ydi |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| **Cyfanswm nifer y lleiniau:** | 83 |
| **Nifer y lleiniau gwag:** | 6 (cynnig wedi'i wneud) |
| **Nifer y lleiniau hygyrch:** | 12 |
| **Nifer ar restr aros:** | 57 |

## Tŷ Newydd, yr Hen Briffordd, Bae Colwyn


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Arwynebedd:** | 5,355m$^2$ |
| **Ward:** | Rhiw |
| **Cyngor Cymuned:** | Bae Colwyn |
| **Gweithredol:** | Ydi |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| | |
| **Cyfanswm nifer y lleiniau:** | 24 |
| **Nifer y lleiniau gwag:** | 0 |
| **Nifer y lleiniau hygyrch:** | 0 |
| | |
| **Nifer ar restr aros:** | 17 |

## Clwb y Lleng Brydeinig, Bae Colwyn


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Arwynebedd:** | 1,090m$^2$ |
| **Ward:** | Rhiw |
| **Cyngor Cymuned:** | Bae Colwyn |
| **Gweithredol:** | Ydi |
| **Perchnogaeth:** | Preifat |
| | |
| **Cyfanswm nifer y lleiniau:** | Anhysbys |
| **Nifer y lleiniau gwag:** | Anhysbys |
| **Nifer y lleiniau hygyrch:** | Anhysbys |
| | |
| **Nifer ar restr aros:** | Anhysbys |

## Wellington Road, Hen Golwyn


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Arwynebedd:** | 255m$^2$ |
| **Ward:** | Colwyn |
| **Cyngor Cymuned:** | Hen Golwyn |
| **Gweithredol:** | Ydi |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| | |
| **Cyfanswm nifer y lleiniau:** | 2 |
| **Nifer y lleiniau gwag:** | 0 |
| **Nifer y lleiniau hygyrch:** | 0 |
| | |
| **Nifer ar restr aros:** | 8 |

## Ffordd y Graig, Hen Golwyn


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Arwynebedd:** | 1,370m$^2$ |
| **Ward:** | Colwyn |
| **Cyngor Cymuned:** | Hen Golwyn |
| **Gweithredol:** | Ydi |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| **Cyfanswm nifer y lleiniau:** | 19 |
| **Nifer y lleiniau gwag:** | 2 (cynnig wedi'i wneud) |
| **Nifer y lleiniau hygyrch:** | 2 |
| **Nifer ar restr aros:** | 8 |

## Bodelwyddan Avenue, Hen Golwyn


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Arwynebedd:** | 955m$^2$ |
| **Ward:** | Colwyn |
| **Cyngor Cymuned:** | Hen Golwyn |
| **Gweithredol:** | Ydi |
| **Perchnogaeth:** | Preifat |
| **Cyfanswm nifer y lleiniau:** | Anhysbys |
| **Nifer y lleiniau gwag:** | Anhysbys |
| **Nifer y lleiniau hygyrch:** | Anhysbys |
| **Nifer ar restr aros:** | Anhysbys |

## Towyn Way West

Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Arwynebedd:** | 1,765m$^2$ |
| **Ward:** | Tywyn |
| **Cyngor Cymuned:** | Towyn a Bae Cinmel |
| **Gweithredol:** | Ydi |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| **Cyfanswm nifer y lleiniau:** | 19 |
| **Nifer y lleiniau gwag:** | 2 (cynnig wedi'i wneud) |
| **Nifer y lleiniau hygyrch:** | 2 |
| **Nifer ar restr aros:** | 8 |